OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 3188

# Rheoliadau Organeddau A Addaswyd Yn Enetig (Eu Gollwng Yn Fwriadol) (Cymru) 2002

## Rhan II

### GOLLWNG ORGANEDDAU YN FWRIADOL AT UNRHYW DDIBEN AC EITHRIO EU GOSOD AR Y FARCHNAD

#### Y gofyniad am ganiatâd i ollwng

**9.** Yr achosion a'r amgylchiadau a ragnodwyd at ddibenion adran 111(1)(a) o'r Ddeddf mewn perthynas â gollwng unrhyw organeddau a addaswyd yn enetig yw'r holl achosion ac amgylchiadau lle bwriedir gollwng organeddau a addaswyd yn enetig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 9 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

#### Gweithgareddau esempt

**10.** Yr achosion a'r amgylchiadau a ragnodwyd at ddibenion adran 111(7) o'r Ddeddf lle mae personau yn esempt rhag gofynion adran 111(1)(a) o'r Ddeddf, i'r graddau y mae'r gofynion hynny yn gymwys i ollwng organeddau a addaswyd yn enetig, yw'r holl achosion ac amgylchiadau lle mae gollwng yn unol â chaniatâd a roddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 111(1)(a) o'r Ddeddf i farchnata organeddau a addaswyd yn enetig neu lle mae cynnyrch a gymeradwywyd yn cael ei ollwng yn unol â'r amodau a'r cyfyngiadau y mae defnyddio'r cynnyrch yn ddarostyngedig iddynt.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 10 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

#### Ceisiadau am ganiatâd i ollwng — darpariaethau cyffredinol

**11.**—(1) Rhaid i gais am ganiatâd i ollwng organeddau a addaswyd yn enetig gael ei wneud yn ysgrifenedig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(2) Caniateir hysbysu gollyngiadau arfaethedig o'r un organedd a addaswyd yn enetig neu gyfuniad o organeddau a addaswyd yn enetig ar yr un safle neu ar safleoedd gwahanol at yr un diben ac o fewn cyfnod penodedig mewn un cais.

(3) Pan fynegir bod cais am ganiatâd i ollwng organeddau a addaswyd yn enetig yn dibynnu ar Benderfyniad Cyntaf y Weithdrefn wedi'i Symleiddio (planhigion cnwd), os bydd unrhyw anghysondeb yn y gofynion ynglŷn â'r wybodaeth sydd i'w darparu o dan y Penderfyniad hwnnw

a'r gofynion ynglŷn â'r wybodaeth sydd i'w darparu o dan y Rheoliadau hyn, darpariaethau'r Penderfyniad hwnnw fydd yn trechu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Rhl. 11 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

### Gwybodaeth i'w chynnwys mewn cais am ganiatâd i ollwng

**12.**—(1) Rhaid i gais am ganiatâd i ollwng organeddau a addaswyd yn enetig gynnwys—

(a) **[**[F1]yn ddarostyngedig i baragraff (1A), **]** yr wybodaeth a ragnodir yn—

(i) Atodlen 1 pan fo'r cais am ganiatâd i ollwng unrhyw uwchblanhigyn a addaswyd yn enetig, neu

(ii) Atodlen 2 mewn unrhyw achos arall,

[F2]...

(b) gwybodaeth am ddata neu ganlyniadau o unrhyw ollyngiad blaenorol o'r organeddau, neu o'r un cyfuniad o organeddau, a gynhaliwyd gan y ceisydd, a gwybodaeth o unrhyw gais blaenorol ar gyfer gollwng yr organeddau, neu'r un cyfuniad o organeddau, y mae'r ceisydd wedi'i wneud i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â'r Ddeddf neu i unrhyw awdurdod cymwys arall yn unol ag Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb Gollyngiadau Bwriadol,

(c) asesiad risg amgylcheddol, a baratowyd yn unol â rheoliad 7,

(ch) crynodeb ar y ffurf a sefydlwyd gan y Comisiwn o dan Erthygl 11(1) o'r Gyfarwyddeb Gollyngiadau Bwriadol, o'r wybodaeth a gynhwyswyd yn y cais.

**[**[F3](d) crynodebau o'r astudiaethau y cyfeirir atynt yn y cais a'u canlyniadau, gan gynnwys esboniad o'u perthnasedd i'r asesiad risg amgylcheddol, fel y bo'n briodol.**]**

**[**[F4](1A) Dim ond os oes ei hangen er mwyn cwblhau asesiad risg amgylcheddol yng nghyd-destun cais penodol y mae'n ofynnol darparu'r wybodaeth a bennir ym mharagraff (1)(a), a gall lefel y manylder y mae rhaid ei ddarparu amrywio yn ôl natur a graddfa'r gollyngiad bwriadol arfaethedig.**]**

(3) Caiff y cais gynnwys—

(a) data neu ganlyniadau o gais am ganiatâd i ollwng organeddau a addaswyd yn enetig a wnaed yn flaenorol gan rywun arall, ar yr amod bod copi o gytundeb ysgrifenedig y person hwnnw yn cael ei gynnwys yn y cais, a

(b) mynegiad o'r wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno yn y cais, y gallai ei datgelu niweidio safle cystadleuol y ceisydd ac y dylid felly ei thrin yn gyfrinachol, ac

(c) unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol ym marn y ceisydd.

(3) Rhaid i gyfiawnhad y gellir ei ddilysu gyd-fynd ag unrhyw fynegiad yn unol â pharagraff (2)(b).

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn rhl. 12(1)(a) wedi eu mewnosod (30.10.2019) gan Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1316), rhlau. 1(2), **4(a)(i)**

**F2** Geiriau yn rhl. 12(1)(a) wedi eu hepgor (30.10.2019) yn rhinwedd Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1316), rhlau. 1(2), **4(a)(ii)**

**F3** Rhl. 12(1)(d) wedi ei fewnosod (30.10.2019) gan Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1316), rhlau. 1(2), **4(b)**

**F4** Rhl. 12(1A) wedi ei fewnosod (30.10.2019) gan Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1316), rhlau. 1(2), **4(c)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Rhl. 12 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

### Hysbysebu cais am ganiatâd i ollwng

**13.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), rhaid i berson sy'n gwneud cais am ganiatâd i ollwng organeddau a addaswyd yn enetig, o fewn deg diwrnod fan bellaf ar ôl iddo anfon y cais hwnnw i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, beri i hysbysiad yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol gael ei gyhoeddi mewn cyhoeddiadau sydd i'w pennu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru—

(a) enw a chyfeiriad y ceisydd,

(b) disgrifiad cyffredinol o'r organeddau sydd i'w gollwng,

(c) lleoliad a diben y gollyngiad,

(ch) dyddiad neu ddyddiadau arfaethedig y gollyngiad,

(d) datganiad y caiff gwybodaeth am y cais ei gosod ar y gofrestr gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn deuddeg diwrnod i'r cais ddod i law,

(dd) drwy ba fodd y gellir archwilio'r gofrestr,

(e) datganiad y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd iddo mewn perthynas â risgiau o beri niwed i'r amgylchedd a allai ddeillio o ollwng yr organeddau a addaswyd yn enetig o fewn cyfnod y bydd yn ei bennu yn unol â'r Rheoliadau hyn,

a rhaid iddo anfon copi o'r cyhoeddiad sy'n cynnwys yr hysbyseb yn ddi-oed i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(2) Nid oes rhaid i hysbysiad o dan baragraff (1) uchod gynnwys yr wybodaeth y cyfeiriwyd ati yn is-baragraffau (c) ac (ch) o'r paragraff hwnnw i'r graddau nad yw'r Penderfyniad Cyntaf y Weithdrefn wedi'i Symleiddio (planhigion cnwd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth honno gael ei chyflwyno gyda'r cais ac nad yw'r wybodaeth honno yn cael ei chyflwyno gyda'r cais.

(3) Rhaid i geisydd am ganiatâd ddarganfod oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru lefel y manylion ar gyfer y man gollwng a gaiff eu gosod ar y gofrestr a chynnwys yr un lefel o fanylion yn yr hysbysiad sydd i'w gyhoeddi o dan baragraff (1) uchod.

(4) Rhaid i berson sy'n gwneud cais am ganiatâd i ollwng organeddau a addaswyd yn enetig, o fewn deg diwrnod wedi iddo anfon y cais hwnnw i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, hysbysu'r personau canlynol yn ysgrifenedig ei fod wedi gwneud y cais a rhaid iddo gynnwys yn yr hysbysiad hwnnw yr wybodaeth a ragnodwyd ym mharagraff (1)(a) i (e), ac eithrio i'r graddau y mae paragraff (2) yn caniatáu i'r fath wybodaeth gael ei heithrio o'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1)—

(a) yr awdurdod lleol ac unrhyw gynghorau cymuned ar gyfer ardal neu ardaloedd pob gollyngiad arfaethedig,

(b) perchenog neu berchnogion y safle neu safleoedd pob gollyngiad arfaethedig, os yw'n berson heblaw am y ceisydd,

**[**[F5](c) unrhyw berson, neu unrhyw aelod o bwyllgor diogelwch addasu genetig, y mae'n rhaid cael cyngor ganddo o dan reoliad 8 o Reoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Defnydd Amgaeëdig) 2014,**]**

(ch) Cymdeithas Awdurdodau Parc Cenedlaethol,

(d) **[**[F6]Corff Adnoddau Naturiol Cymru**]** ,

[F7](dd) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

a rhaid iddo anfon copïau o'r hysbysiadau yn ddi-oed i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Diwygiadau Testunol**

**F5** Rhl. 13(4)(c) wedi ei amnewid (17.12.2018) gan Rheoliadau yr Amgylchedd, Cynllunio a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/1216), rhlau. 1(3), **4(3)**

**F6** Geiriau yn rhl. 13(4)(e) wedi eu hamnewid (1.4.2013) gan Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 (O.S. 2013/755), ergl. 1(2), **Atod. 5 para. 16(2)** (ynghyd ag Atod. 7)

**F7** Rhl. 13(4)(dd) wedi ei hepgor (1.4.2013) yn rhinwedd Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 (O.S. 2013/755), ergl. 1(2), **Atod. 5 para. 16(3)** (ynghyd ag Atod. 7)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Rhl. 13 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**Darpariaethau trosiannol ar gyfer gollwng**

**14.** Pan fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cael cais am ganiatâd i ollwng organeddau a addaswyd yn enetig cyn 31 Rhagfyr 2002 yn unol â Rheoliadau 1992 ac nad yw wedi penderfynu'r cais eto—

(a) bydd y cais yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn;

(b) rhaid i'r ceisydd gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ychwanegol at yr wybodaeth sydd wedi'i darparu eisoes mewn cysylltiad â'r cais, unrhyw wybodaeth bellach sy'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau hyn erbyn 17 Ionawr 2003;

(c) rhaid trin y cais fel un sydd wedi'i anfon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru at ddibenion rheoliadau 13(1) a (4) ac sydd wedi dod i law Cynulliad Cenedlaethol Cymru at ddibenion rheoliad 21 pan fydd yr wybodaeth sy'n ofynnol o dan baragraff (b) wedi'i chyflwyno; ac

(ch) os nad yw'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan baragraff (b) wedi'i chyflwyno erbyn 17 Ionawr 2003, caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrthod bwrw ymlaen â'r cais.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Rhl. 14 mewn grym ar 31.12.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**

Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Organeddau A Addaswyd Yn Enetig (Eu Gollwng Yn Fwriadol) (Cymru) 2002. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.

View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Instrument associated Parts and Chapters:**

Whole provisions yet to be inserted into this Instrument (including any effects on those provisions):

- reg. 16(1)(e) substituted by S.I. 2019/379 reg. 3(5)(e) (This amendment not applied to legislation.gov.uk. Pt. 3 revoked immediately before IP completion day by S.I. 2019/1492, regs. 1(2), 4(2))
- reg. 16(1)(g) omitted by S.I. 2019/379 reg. 3(5)(f) (This amendment not applied to legislation.gov.uk. Pt. 3 revoked immediately before IP completion day by S.I. 2019/1492, regs. 1(2), 4(2))
- reg. 16(1)(aa) inserted by S.I. 2019/379 reg. 3(5)(b) (This amendment not applied to legislation.gov.uk. Pt. 3 revoked immediately before IP completion day by S.I. 2019/1492, regs. 1(2), 4(2))
- reg. 16(2) inserted by S.I. 2019/379 reg. 3(5)(g) (This amendment not applied to legislation.gov.uk. Pt. 3 revoked immediately before IP completion day by S.I. 2019/1492, regs. 1(2), 4(2))